

## Dysgwyr a Myfyrwyr

**Bydd y Cyngor yn defnyddio fframwaith sy'n dangos pa gamau y gallech eu disgwyl os byddwch yn camymddwyn. Mae detholiad o'r fframwaith hwnnw ar ddiwedd y llyfryn hwn. Cliciwch**

### » **Eich Cyfrifoldebau Chi**

Parchwch bobl eraill bob amser, gan gynnwys dysgwyr eraill, gyrwyr a'r cyhoedd.

Parchwch gerbydau ac eiddo bob amser.

Byddwch yn gwrtais bob amser.

Peidiwch fyth â gollwng ysbwriel.

Cadwch at y gyfraith bob amser.

### » **Eich Diogelwch**

Cofiwch bob amser ymddwyn yn dda drwy gydol eich taith.

Dilynwch gyfarwyddiadau'r gyrrwr bob amser wrth deithio.

Rhaid i chi beidio â thynnu sylw gyrwyr.

Croeswch y ffordd yn ddiogel ac yn gall bob tro.

Teithiwch ar hyd llwybr diogel bob amser.

### » **Y Cod Teithiau Ysgol**

Byddwch yn brydlon.

Pan fyddwch wrth y safle bysiau, arhoswch yno'n gall ac oddi ar y ffordd bob amser. Cofiwch adael i gerddwyr eraill fynd heibio'n ddiogel.

Trefnwch efo'ch rhieni beth i'w wneud os nad yw'r bws neu dacsï'n cyrraedd neu os ydych yn ei fethu.

Pan fydd y bws neu dacsï'n cyrraedd, arhoswch iddo stopio. Peidiwch fyth â gwthio neu ruthro am y drws.

Gofalwch nad yw eich dillad a'ch bagiau'n cael eu dal yn nrysau'r cerbyd.

Dangoswch eich cerdyn bws bob amser (os cawsoch un) pan fyddwch yn mynd ar y bws.

Ar fws ysgol, ewch i'ch sedd yn gyflym a heb wthio. Arhoswch ynddi ar hyd y daith.

Peidiwch fyth â sefyll neu symud o gwmpas pan fydd y cerbyd yn symud.

Ar fws cyhoeddus, ewch i sedd os oes un mae ar gael. Byddwch yn ystyriol o deithwyr eraill bob amser.

Peidiwch fyth â rhwystro'r eil gyda'ch bag neu eiddo arall.

Gwisgwch wregys diogelwch bob amser os oes un ar gael.

Rhaid i chi beidio â thynnu sylw'r gyrrwr pan fydd yn gyrru. Cofiwch fod sŵn mawr yn gallu achosi i yrrwr fethu canolbwyntio ar y gyrru.

# Canllawiau Cludiant Addysg

Peidiwch fyth â bwyta, yfed na smygu ar y bws neu dacsï.

Peidiwch fyth â thafllu unrhyw beth yn neu o'r bws neu dacsï.

Peidiwch fyth â difrodi neu fandaleiddio unrhyw ran o'r bws neu dacsï.

Peidiwch fyth ag agor neu weithredu drysau neu allanfeydd y bws, heblaw mewn argyfwng.

Dilynwch gyfarwyddiadau'r gyrrwr neu deithiwr cynorthwyol bob amser.

Os bydd gwrthdrawiad, arhoswch ar y bws neu dacsï nes i rywun ddweud wrthy'ch am adael. Os yw'n beryglus i aros ar y cerbyd, yna gadewch drwy'r allanfa fwyaf diogel.

Peidiwch fyth â cheisio mynd ar neu ddod oddi ar y bws neu dacsï cyn iddo stopio

Ewch ar neu oddi ar y bws neu dacsï'n gall bob amser, gan fynd â'ch holl eiddo efo chi.

Peidiwch fyth â chroesi'r ffordd o flaen neu y tu ôl i'r bws neu dacsï. Arhoswch i'r cerbyd symud i ffwrdd gyntaf, a gwneud yn siŵr bod y ffordd yn glir.

Cofiwch fynd â'ch holl eiddo efo chi. Os ydych chi wedi gadael rhywbeth ar y bws neu dacsï, byddwch yn ofalus wrth fynd yn ôl. Os yw'r cerbyd eisoes wedi dechrau symud, arhoswch tan y daith nesaf i'w gael yn ôl, a ffoniwch y gweithredwr.

» [Gweler hefyd](#)

[Linc i'r Cod Teithio Llywodraeth Cymru](#)